Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Bwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol (WIDAB)

Penodi Cadeirydd

Dyddiad cau: 21/02/2025

The Commissioner for Public Appointments

Cynnwys

Gwneud cais – Nodyn gan y Cadeirydd	**Tudalen 3**
Gwneud Cais	**Tudalen 4**
Atodiad A: Rôl Cadeirydd	**Tudalen 7**
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau WIDAB	**Tudalen 9**
Atodiad C: Y Broses Ddewis	**Tudalen 11**

Cyflwyniad - Nodyn gan y Cadeirydd

Prif rôl y Cadeirydd yw darparu arweinyddiaeth i'r bwrdd o ran ymddygiad, parch at bawb, arbenigedd ac ymwybyddiaeth o Egwyddorion Nolan Bywyd Cyhoeddus. Mae gwybodaeth am arian Llywodraeth Cymru y gwneir ceisiadau ar ei gyfer yn ddefnyddiol. Mae paratoi cyn y cyfarfod yn hanfodol ac i wneud eich gwaith cartref ar achosion i'w cyflwyno. Disgwylir i'r Cadeirydd fod ar gael i fynychu cyfarfodydd bwrdd misol ac o bryd i'w gilydd cyfarfodydd ad-hoc os oes angen. Rhaid iddynt benderfynu trefn cyfraniad aelodau'r bwrdd sy'n mynychu gan ystyried arbenigedd a bod yn ymwybodol o'r swyddogion sy'n mynychu a'r prif swyddog.

Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y swyddog arfaethedig i gyflwyno'r achos ac yn gofyn am unrhyw bwyntiau o eglurhad ac yna'n gwahodd aelodau'r bwrdd yn y drefn a bennwyd ymlaen llaw am eu cyfraniadau. Ar ddiwedd eu sylwadau, mae'r Cadeirydd yn sefydlu a yw'r aelod o'r bwrdd yn cefnogi'r achos neu fel arall. Yna mae'r Cadeirydd yn penderfynu a yw'r holl bwyntiau allweddol wedi'u gwneud ac, os oes angen, mae'n gofyn unrhyw gwestiynau ychwanegol. Mae'r Cadeirydd yn crynhoi'r prif sylwadau a wnaed gan aelodau'r bwrdd ac yn cadarnhau unrhyw amodau i'w cymhwyso i unrhyw ddyfarniad. Os na chefnogir yr achos mae'r Cadeirydd yn crynhoi'r rhesymau a'r meysydd sy'n peri pryder.

Disgwylir i'r Cadeirydd hefyd gefnogi'r ysgrifenyddiaeth i baratoi adroddiadau blynyddol a chynnal asesiadau o berfformiad blynyddol aelodau'r bwrdd.

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Aelod o'r WIDAB. Bydd y Cadeirydd newydd yn rhoi cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ar brosiectau unigol o dros £1 miliwn o'r cynlluniau perthnasol o fewn Cronfa Dyfodol yr Economi ac ar brydiau, gynlluniau eraill.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Cyfarfodydd a gynhelir yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghymru, mewn rhai amgylchiadau, gellir cynnal cyfarfodydd yn rhithwir.
Ymrwymiad Amser:	Un diwrnod y mis ar gyfartaledd - mwy os oes nifer fawr o achosion (Ar brydiau mae'n bosibl y cynhelir cyfarfodydd anarferol ychwanegol pan fydd ysgrifenyddiaeth WIDAB yn gofyn i aelodau'r bwrdd fod yn bresennol)
Hyd y penodiad:	3 blynedd
Tâl:	£256 y dydd ynghyd â chostau teithio a threuliau rhesymol eraill.

Mae'r Atodiadau yn rhoi manylion rôl y Cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau WIDAB a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: Penodiadau cyhoeddus | LLYW.CYMRU

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Bwrdd WIDAB ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y gwnewch chi gais am swydd, bydd angen ichi gofrestru ar system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru. Gallwch wedyn gadw golwg ar hynt eich cais presennol, ac unrhyw geisiadau yn y dyfodol, drwy eich cyfrif cofrestredig ar-lein. Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV gyda'ch ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sy'n penderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio pa ran y gwnaethoch chi ei chwarae wrth gyflawni amcan penodol. Helpwch y panel dethol trwy ddangos yn glir pa dystiolaeth sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arferol neilltuo paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf.

Peidiwch â gadael i'ch datganiad personol fynd yn fwy na dwy dudalen o hyd. Efallai y caiff eich cais ei wrthod os ewch dros y terfyn geiriau hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	21/02/2025
Llunio rhestr fer:	07/04/2025
Cyfweliadau:	28/04/2025

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir - er mwyn helpu'r byrddau i ddeall anghenion pobl ac i wneud penderfyniadau gwell. Bydd bwrdd cynrychioliadol yn helpu i ddatblygu ein gweledigaeth ar gyfer Cymru Fwy Cyfartal a Gwrth-hiliol. Dyma pam y mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig, pobl anabl, pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol, a phobl o wahanol gefndiroedd ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas sy'n analluogi pobl sydd ag amhariadau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau er mwyn i bob aelod staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd, sef "amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd".

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai 'hanfodol'.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi pobl anabl a datblygu eu gyrfaoedd. Os hoffech wneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, cysylltwch â Leia Davies drwy anfon e-bost at leia.davies038@llyw.cymru er mwyn rhoi gwybod iddynt.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a bod angen ichi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch a Leia Davies, drwy'r e-bost uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, e-bostiwch y Tîm Penodiadau Cyhoeddus ar publicappointments@llyw.cymru

Am fwy o wybodaeth am rôl y WIDAB a rôl yr Aelodau, cysylltwch â Leia Davies leia.davies038@llyw.cymru

Os hoffech ragor o help i ymgeisio am y swydd, cysylltwch â publicappointments@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i Penodiadau cyhoeddus | LLYW.CYMRU

Atodiad A

Penodi Cadeirydd WIDAB

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau

Bydd disgwyl i aelodau'r Bwrdd ddadansoddi gwybodaeth fasnachol, dechnegol ac ariannol, ac asesu teilyngdod y prosiectau hyn a gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio.

Fel Cadeirydd y Bwrdd, bydd disgwyl ichi arwain trafodaethau cyfarfodydd y Bwrdd a helpu eich cyd-aelodau ar y Bwrdd i gyrraedd consensws barn fyddai'n addas i'w argymell i Ysgrifennydd y Cabinet. Bydd gofyn ichi hefyd helpu i recriwtio aelodau newydd i'r Bwrdd.

Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

Meini Prawf Hanfodol

- Dealltwriaeth gref o'r cyfleoedd economaidd rhanbarthol, bygythiadau a chryfderau yng ngwahanol ranbarthau Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru, tra'n gwerthfawrogi y materion sy'n berthnasol i Gymru yn genedlaethol.
- Y gallu i ddadansoddi ac asesu gwybodaeth fasnachol, dechnegol ac ariannol (yn ysgrifenedig fel arfer) sy'n cael ei ddarparu i gefnogi ceisiadau grant a disgrifio prif gryfderau a gwendidau achosion a'r casgliadau a ddaw iddynt.
- Sgiliau cyfathrebu cadarn a hyder wrth gyflwyno safbwyntiau yn seiliedig ar brofiad penodol.
- Bod yn barod i wrando ac asesu'r cyfraniadau gan gydweithwyr ar y Bwrdd a swyddogion.
- Dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymrwymiad iddynt
- Deall Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan ac ymrwymo iddynt.

Meini Prawf Dymunol

Bydd angen i'r Bwrdd hefyd feddu ar aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad yn y meysydd canlynol;

- Twristiaeth a Bwyd
- Y Diwydiannau Creadigol
- TGCh, Technoleg Ariannol a Gwasanaethau Digidol
- Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch ac Adeiladu cyfoes
- Yr amgylchedd ac economi carbon isel

Y Gymraeg

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol.

Deall: Gall ddeall darnau o sgwrs sylfaenol.

Darllen: Gall ddarllen rhai geiriau ymadroddion sylfaenol.

Siarad: Yn gallu cynnal sgyrsiau sylfaenol yn Gymraeg.

Ysgrifennu: Gall ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd.

Cymhwysedd

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd y bydd bod yn aelod o Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn Aelod o Senedd Cymru yn unol â Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (legislation.gov.uk)

Gwrthdaro Buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o WIDAB, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl yn WIDAB.

Bydd unrhyw achos o wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Tîm Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddewis ar gyfer cyfweliad. Bydd hynny'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweliad am ffrwyth y gwiriadau diwydrwydd dyladwy hyn.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd yn ofynnol i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Mae'r ddogfen honno i'w gweld yma:

Cod ymarfer aelodau byrddau cyrff cyhoeddus - GOV.UK (www.gov.uk)

Rôl a chyfrifoldebau WIDAB

Cefndir

Wedi'i sefydlu'n wreiddiol o dan Ddeddf Asiantaeth Datblygu Cymru 1975, mae WIDAB yn rhoi cyngor i Weinidogion ac Uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n gysylltiedig ag Economi Cymru ac yn eu cynorthwyo yn eu huchelgais i sbarduno twf cynaliadwy a chynhwysol ar draws rhanbarthau Cymru.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn ceisio penodi Cadeirydd y Bwrdd.

Y Sefyllfa Statudol

Sefydlwyd WIDAB yn wreiddiol o dan Adran 13 Deddf Datblygu Diwydiannol Cymru 1975 ("Deddf 1975") i roi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gymorth ariannol i'r Diwydiant ac roedd yr un adran yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi aelodau gyda phrofiad a chapasiti penodol.

Roedd swyddogaethau a dyletswyddau yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â WIDAB o dan Adran 13 Deddf 1975 wedi eu rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Erthygl 7 o, ac Atodlen 1 i, Orchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005 (O.S. 2005 / 3226 c. 238) (“Gorchymyn 2005”). Mae'r swyddogaethau hyn o ganlyniad wedi'u rhoi yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 I Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio sy'n gwneud argymhellion i'r Bwrdd.

Er mai cynghori yw swyddogaeth y Bwrdd, os yw yn gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a bod y gweithredu yn groes i'r argymhelliad, gall y Bwrdd ofyn am i ddatganiad gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad ynghylch y rheswm dros y newid yn y penderfyniad.

Mae’r Cyllid yn gydnaws â’r cytundebau cymwys yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a’r UE, unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy’n cynnwys y DU, Protocol Gogledd Iwerddon ac unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol.

Rôl y Bwrdd

Yn ganolog i rôl WIDAB mae darparu cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ar brosiectau unigol dros £1 miliwn o'r cynlluniau perthnasol yng Nghronfa Dyfodol yr Economi a chynlluniau eraill o fewn cylch gwaith y Bwrdd. Y Cynlluniau statudol i'w cyflwyno i'r WIDAB yw:

- Cynllun Diogelu'r Amgylchedd
- Buddsoddi Cyfalaf a Chymorth ar gyfer Creu Swyddi
- Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru
- Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol

Yr hyn fydd yn ganolog i swyddogaeth y Bwrdd fydd dealltwriaeth o'r Cynllun Gweithredu Economaidd sy'n ceisio hyrwyddo twf cynhwysol a sicrhau bod yr holl fusnesau sy'n derbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru wedi ymrwymo i amcanion Llywodraeth Cymru.

Mae'r amcanion hyn yn llunio pileri y Contract Economaidd newydd, ac mae'n rhaid i fusnesau yng Nghymru gyflawni yn erbyn y delfrydau hyn. Sef;

- Economi Hyblyg a Chryf
- Eu hymrwymiad i Waith Teg
- Hyrwyddo Llesiant
- Carbon Isel a Gwrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd

Bydd yn ofynnol i unrhyw fusnes sy'n galw am gymorth ariannol uniongyrchol ddatblygu cynigion sy'n ymateb ac yn cyd-fynd ag o leiaf un o'r Galwadau i Weithredu, sydd wedi'u rhestru isod;

- Datgarboneiddio
- Arloesi, Entrepreneuriaeth a Phencadlys
- Allforion a Masnach
- Gwaith o Ansawdd Uchel, Datblygu Sgiliau, a Gwaith Teg
- Ymchwil a Datblygu, Awtomeiddio a Digidoleiddio

Bydd dealltwriaeth dda o'r Cynllun Gweithredu Economaidd yn hanfodol er mwyn rhoi cyngor o safon uchel i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio.

Yn ogystal, deall sut mae prosiect yn bodloni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu gyda ffocws penodol ar adeiladu economi yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i bennu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'ch datganiad yn unig i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen. Gofalwch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Duncan Hamer, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Busnes a Rhanbarthau (Llywodraeth Cymru), a bydd hefyd yn cynnwys Sioned Rees, Cyfarwyddwr, Gwarchod Iechyd y Cyhoedd (Llywodraeth Cymru) a Gareth Williams - Prif Swyddog Gweithredol Marshall Group (Aelod Annibynnol o'r Panel).

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Mewn sefyllfa o'r fath, dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan bob aelod o'r panel.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel ym mis Mawrth 2025 wedi penderfynu pwy i'w wahodd i gyfweliad ym mis Ebrill 2025.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf ym marn y panel sydd wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir ym manyleb y person a fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Er hynny, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad **a'ch bod yn bodloni meini prawf gofynnol y swydd**, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i nodi eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os nad yw'r dyddiad a drefnir yn gyfleus i chi, byddwn yn ceisio ei aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu oherwydd nad yw'r panel dethol ar gael.

Fe gewch e-bost gan ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau yn swyddfa Llywodraeth Cymru ym Merthyr Tudful, swyddfa Parc Cathays, neu gellir eu cynnal yn rhithiol gan ddefnyddio Microsoft Teams.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni meini prawf** y swydd. Bydd astudiaeth achos a bydd gofyn ichi roi sylwadau arno a rhoi argymhelliad.

Bydd ymgeiswyr sy'n 'benodadwy' yn ôl y panel yn cael eu hargymell i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall Ysgrifennydd y Cabinet ddewis cwrdd â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os byddant yn gwneud hynny, byddant yn cwrdd â phob ymgeisydd. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr

ymgeiswyr a fydd wedi'u cyf-weld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf o ran hynt y broses honno.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Aelod o WIDAB, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, cewch wybod drwy ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru. Rydym yn sylweddoli bod ymgeisio am swyddi yn gofyn am lawer o amser ac ymdrech a bod cael adborth felly yn rhan werthfawr o'r broses. Bydd y llythyr felly yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth am eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Cwestiynau

Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn gwbl fodlon

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau cyn gynted â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, e-bostiwch PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at: Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus G/08, 1 Horse Guards Road, Llundain SW1A 2HQ. neu drwy e-bost ar publicappointments@csc.gov.uk